# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD IONAWR 2020

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 15fed o Ionawr, 2020** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSGADFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd Bryn Hughes, Gwilym Thomas, Elin Evans, Rhodri Dwyfor, Tom Ellis, Nerys Evans, Jason Hunt, Gwilym Williams ag Eleri Thomas (Clerc). |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Peter Roberts, Huw Rowlands ag Aeron M Jones. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Elin Evans – pwynt 4 – ymweliad gan Elliw Owen, Adra Cyf. |
| **4.** | **Ymweliad gan Elliw Owen, Uwch Syrfëwr Datblygu, Adra Cyf - Tai newydd Dinas** |
| | Estynnwyd croeso i Elliw Owen o Gwmni Adra Cyf. Eglurwyd bod cais cynllunio ar gyfer adeiladu 24 tŷ yn Ninas yn symud yn ei flaen gyda'r gobaith y byddai'r gwaith yn dechrau yn y Gwanwyn, 2020. Nodwyd bydd 12 x eiddo marchnad a 12 x eiddo fforddiadwy gyda chynllun ar y gweill i adeiladu 1 x bungalow. Rhagwelwyd y byddai'r gwaith yn ei orffen mewn oddeutu 12-16 mis a bod y prosiect yn cael ei ariannu gyda grant Llywodraeth Cymru.<br><br>Gofynnodd Elliw i'r Cyngor os oedd ganddynt awgrymiadau ar gyfer enw i'r stad newydd. Holodd GT os byddai Cwmni Adra yn cysidro gosod maes chwarae yno. Gofynnodd EE am balmant i'r plant, eglurwyd nad oedd digon o le i roi palmant yr holl ffordd gan fyddai hynny'n cyfyngu gormod ar y ffordd. |
| **5.** | **Cadarnhau cofnodion 20.11.19 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan GT ag eiliwyd gan MW.<br><br>Nodwyd fod AMJ wedi cael cyfnod o salwch. Gofynnwyd i'r clerc anfon neges i ddymuno gwellhad buan ato. |
| **6.** | **Materion Misol** |
| | a) NE – Twll yn llwybr Bryngwyn<br>Eglurwyd fod y clerc wedi cysylltu gyda chontractwr Iestyn Davies â'i fod wedi gofyn am luniau ac union leoliad y pyst oedd wedi pydru. Gofynnwyd i NE gael lluniau a lleoliad ac yna i'r clerc ail-gysylltu gyda'r contractwr.<br><br>b) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019-2023<br>Yn absenoldeb AMJ, penderfynwyd ei drafod mis nesaf.<br><br>c) Problem Llygod – ardal Rhosgadfan<br>Sefyllfa llygod dal i barhau ond yn gwella. I'w roi ar yr agenda mis nesaf.<br><br>d) Llwybrau cyhoeddus<br>Llwybr Waun Bant – angen cysylltu gyda CG i ofyn pam mai wedi cymryd gymaint o amser ers 2015 iddynt ymateb. Clerc i lenwi'r ffurflen i gofrestru'r llwybr.<br><br>Llwybr Tan y Fron - derbyniodd y clerc e-bost gan GG yn adrodd eu bod wedi ymweld â'r safle ac nad oedd problem i'w weld. Gofynnwyd i'r clerc anfon copi ymlaen i'r trigolyn oedd wedi codi'r mater.<br><br>e) RD – gwydrau o gwmpas ardal Rhosgadfan<br>Adroddwyd fod gwydrau yn yr ardal dal yn broblem. Poteli cwrw wedi ei dorri o flaen yr Ysgol. Clerc i ail-gysylltu gyda CG. Codwyd pryder am y system ail-gylchu newydd sydd wedi |

cychwyn mis Tachwedd. Eglurwyd nad oedd rhai o'r biniau ail-gylchu yn cael eu casglu, yn enwedig yn stad Dreflan. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda CG ynglŷn â'r holl ansicrwydd o gasglu biniau sbwriel ag ail-gylchu.

f) GT -Biniau halen
Eglurwyd fod Cyngor Cymuned Llandwrog wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth llenwi'r biniau halen. Cytunodd BH y byddai'n llunio llythyr i Brif Weithredwr CG ac Un Llais Cymru i ddyfynnu'r hyn y mae'r yswirwyr yn ei argymell ac anfon copi ymlaen i Glerc Cyngor Llandwrog.

g) GT - Dargyfeirio llwybr o flaen Tŷ Tan Foel Fawr
Derbyniwyd e-bost gan glerc Cyngor Llandwrog yn cadarnhau nad oedd y llwybr wedi ei ddargyfeirio.

h) GW - Lon Cae Garw o sgwâr Rhos Isaf
Nodwyd nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau hyd yn hyn – clerc i ail-gysylltu gyda CG.

i) MW - Tŷ Hen, Rhosgadfan - dwr yn llifo / rhewi
Nodwyd nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau hyd yn hyn – clerc i ail-gysylltu gyda CG.

j) PR – Ceir wedi parcio ger cyffwrdd Rhosgadfan
Nodwyd nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau hyd yn hyn – clerc i ail-gysylltu gyda CG.

Gofynnod BH os oedd modd estyn gwahoddiad i Steffan Jones o GG fynychu un o gyfarfodydd y Cyngor gan fod nifer o'r problemau ddim yn cael eu datrys ac yn cael eu hail-adrodd yn fisol.

k) HR - Adborth - cyfarfod Grŵp Cynefin mis Rhagfyr
Yn absenoldeb HR penderfynwyd ei drafod mis nesaf.

l) RD – Ty'n Rhosydd – wedi hawlio darn o dir
Eglurodd RD bod patio wedi ei adeiladu ffin ochr y ffordd - gofynnwyd i'r clerc cysylltu gyda Chymdeithas y Porwyr i adrodd y broblem ynghyd a chŵyn bod Ty'n Mynydd wedi gosod quarry waste i lawr at y giât.

m) Mabwysiadau - Polisi Amgylcheddol a Bioamrywiaeth
Penderfynwyd mabwysiadu'r polisi gyda NE yn cynnig BH yn eilio.

n) Adnodd awyr agored Rhosgadfan – Dion Roberts
Derbyniwyd e-bost gan Dion yn gofyn am sylwadau gan y Cyngor i wneud defnydd Adnodd awyr agored yn safle Gors Goch. Codwyd pryder bod yr ardal hon yn lle gwlyb ofnadwy ac ni fyddai'n addas ar gyfer plant. Gofynnwyd i'r clerc ofyn iddo beth oedd yr adnodd a beth oedd yn ei arbed rhag defnyddio'r Parc Cymunedol fel adnodd awyr agored.

o) Caeau chwarae
Derbyniwyd e-bost gan GG yn nodi costau cynnal a chadw cae chwarae Saron. Penderfynwyd peidio â gwneud dim ar hyn o bryd.

Nodwyd fod gwaith ar y Cynllun Atal llifogydd Rhostryfan i'w ddechrau mis Mawrth 2020.

Adroddwyd bod nifer o gwynion am faw cwn yn baeddu'r palmant yn ardal Rhostryfan. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda swyddog diogelu'r amgylchedd i ofyn i'r warden / swyddog cwn ymweld ar ardal.

| 7. | Derbyn Adroddiadau |
|---|---|
| | Dim materion i'w adrodd mis yma. |

| 8. | Materion Ariannol |
|---|---|

**a) Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar yr 15fed o Ionawr, 2020**

**1. Cyfrif Cadw**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (20.11.19) | 42,630.99 |
| - Trosglwyddo £3000 i'r cyfrif cyfredol | 3,000.00 |
| + Llog | 21.65 |
| **Balans ar derfyn busnes 15fed o Ionawr, 2020** | **£39652.64** |

**2. Cyfrif Siec**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (20.11.19) | **5207.09** |
| + Trosglwyddo o'r cyfrif cadw | 3000.00 |
| + Claddedigaeth | 270.00 |
| | |
| - Cyflog y Clerc - Tachwedd 2019 | 465.20 |
| - Cyllid y Wlad – Tachwedd 2019 | 105.80 |
| - Cyflog y Clerc – Rhagfyr 2019 | 465.40 |
| - Cyllid y Wlad – Rhagfyr 2019 | 105.60 |
| - Cyngor Gwynedd – Archwiliad mewnol 18/19 | 180.00 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru – 17/18 | 311.40 |
| - Swyddfa Archwilio Cymru – 18/19 | 277.10 |
| - Wyn Williams | |
| 1540.50 | |
| **Balans ar derfyn busnes 15fed o Ionawr, 2020** | **£5026.09** |

**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15fed o Ionawr, 2020**

| | |
|---|---|
| Cyflog y Clerc – Ionawr 2020 | 465.20 |
| Cyllid y Wlad – Ionawr 2020 | 105.80 |
| Yswiriant Zurich | 1546.97 |
| **Cyfanswm** | **£2117.97** |

Cytunwyd i'r taliadau ar gyfer y mis hwn.

b) Cyllideb 2020/2021
Edrychwyd ar amcangyfrif cyllideb 2020/2021 gan gymharu cyfrifon 2018/19 a rhagolygon 2019/2020. Penderfynwyd peidio â chodi'r praesept 2020/2021 a byddai hyn yn gadael gweddill o 16%. Adroddwyd fod oddeutu 20 mlynedd o ddefnydd ar ôl yn y fynwent bresennol ac felly dim brys ar gychwyn y gwaith i'w estyn ar hyn o bryd. Nodwyd bod trafodaeth yn mynd yn ei flaen i gynllunio llwybr o Ysgol Rhostryfan i faes parcio lein Bryngwyn. Penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf.

c) Cysoni'r banc
Dosbarthwyd taflen yn dangos cysoniad banc i ddiwedd y flwyddyn 2019.

d) Praesept 2020/2021
Penderfynwyd cadw'r praesept yn £28,000 am y flwyddyn ariannol 2020/2021 - GT yn cynnig a NE yn eilio.

| 9. | **Materion Cynllunio** |
|---|---|
| | a) Cais C19/1213/24/DT - Tŷ Traeth, Saron, Caernarfon LL54 5UL - Cais ar gyfer codi estyniad unllawr ochr yr eiddo ynghyd a chodi modurdy dwbl.<br><br>**Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad.** |
| **10.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | a) Wandersafe<br>Cyfeiriwyd at e-bost a dderbyniwyd am declyn “wandersafe” ar gyfer yr henoed. Clerc i rannu’r wybodaeth ar daflen Facebook y Cyngor.<br><br>b) OWL<br>Penderfynwyd peidio ymuno a’r cynllun.<br><br>c) Eisteddfod Genedlaethol 2021<br>Penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod mis nesaf.<br><br>d) Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon<br>Darllenwyd yr e-bost er gwybodaeth.<br><br>e) Prosiect Glynllifon - Cynigiodd NE y byddai’n mynychu’r cyfarfod ar ran y Cyngor, clerc i anfon manylion o’r dyddiad a’r lleoliad ymlaen iddi. |
| **11.** | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | NE – Dwr ar ffordd Wernlas Ddu.<br><br>NE - cyn safle dwr dros y ffordd i Ben Ceunant, wedi ei brynu a’r glirio angen sicrwydd nad oes plant yn mynd yno. Lleoliad peryglus.<br><br>NE - ceir yn parcio ar y llecyn gwair tu allan i dy Brŷn Melyn, Rhos Isaf. Angen gwahardd parcio ger eisteddle - holi am osod bolard?<br><br>TE - Holi beth ydi’r broses gyda chipio coed sydd wedi eu torri ar ochr y ffordd. I’w weld yn flêr a ddim yn cael ei chwalu’n daclus yn ôl i’r ddaear.<br><br>EE – Angen i bobl fod yn wyliadwrus o ddwyn olew – clerc i holi am ymweliad gan yr heddlu i gyfarfod a’r Cyngor.<br><br>GT - Angen llinell felen - o Ben Ffordd i Lyn Aber.<br><br>GT - Adwy wedi ei agor o’r cae i’r lon dros ffordd i Cadfan Isaf.<br><br>BH – Baw cwn.<br><br>GW - Isfryn ger Bryn Glas - grating wedi suddo Pen Ceunant tuag at sgwâr Bryn Melyn (ger y darn cul).<br><br>**Dyddiad: 19eg o Chwefror, 2020**<br>**Is-bwyllgor Cyllid – 6.15yh**<br>**Cyfarfod Llawn – 7.00yh**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSTRYFAN** |